




Deunyddiau Cymorth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Syniadau i gefnogi CGM ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau

Y Grŵp Oedran a Awgrymir:
plant 6-7 oed

Dathliadau

Crefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol:
Cristnogion, Hindŵiaid a Mwslimiaid



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



PARTNERIAETH

RE Today
Services

Mae hwn yn un o gyfres o ddeunyddiau cymorth ar gyfer CGM a luniwyd at ddefnydd athrawon, gyda'r nod o osod safonau uchel wrth astudio crefydd, gwerthoedd a moeseg. Cynigir yr adnoddau hyn i fod yn awgrymiadau i alluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â chrefydd a chred, a hynny mewn ffyrdd sy'n meithrin pedwar diben Cwricwlwm i Gymru ac yn cynnig cyfleoedd i archwilio'r themâu trawsbynciol a datblygu sgiliau disgyblaethol a sgiliau ehangach. Maent wedi cael eu hysgrifennu i gyd-fynd â'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r Camau Cynnydd ym MDPH y Dyniaethau. Ni fwriedir i unrhyw beth yn y deunyddiau hyn fod yn rhagnodol. Atgoffir athrawon fod CGM i gael ei ddarparu gyda golwg ar y Maes Llafur Cytunedig Lleol ac egwyddor sybsidiaredd. Gallwch gyrchu'r gyfres o gynlluniau ac adnoddau ategol yma:

www.retoday.org.uk/rvewales

Cefnogi CGM yn Cwricwlwm i Gymru

Bwriad y deunyddiau hyn yw rhoi syniadau i athrawon a'u hysbrydoli i gefnogi CGM beirniadol, gwrthrychol a phlwrailaethol, yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru a'u maes llafur cytunedig lleol. Ni fwriedir i'r deunyddiau ragnodi cynnwys, na chysiau dysgu penodol. Rydym yn annog athrawon i fod yn hyblyg, yn greadigol ac yn ddetholus wrth ddefnyddio'r deunyddiau hyn. Mae sybsidiaredd yn egwyddor allweddol yn Cwricwlwm i Gymru, felly dylai athrawon arfer barn broffesiynol, ac ymgysylltu'n feirniadol â'r deunyddiau hyn, i sicrhau bod CGM yn eu hysgol yn adlewyrchu eu cyd-destun lleol ynghyd ag anghenion y dysgwyr, ac yn bodloni gofynion statudol. Gellir addasu a diwygio'r deunyddiau, a'u defnyddio mewn modd mor ddetholus neu mor gynhwysfawr ag sy'n briodol i gyd-destun unigol pob ysgol.

Gwybodaeth am yr adnoddau hyn

Mae Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Abertawe yn ddiolchgar am y cyllid a gafodd gan ymddiriedolaeth [Westhill Endowment](#), cyllid a'i gwnaeth yn bosibl cyflawni'r gwaith hwn.

Lluniwyd y deunyddiau hyn i gefnogi CGM yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn Cwricwlwm i Gymru. Maent yn ganlyniad i gydweithrediad rhwng CYSAG Abertawe ac RE Today Services.

Mae [RE Today](#) Services yn elusen addysgol sefydledig ac uchel ei pharch sy'n gweithio yn y DU ac yn rhyngwladol i roi addysg eang a chytbwys i blant i'w cefnogi yn y byd y maent yn byw ynddo, a hynny trwy addysgu Addysg Grefyddol o ansawdd uchel mewn ysgolion. Ysgrifennwyd y deunyddiau hyn gan Lat Blaylock, golygydd y cylchgrawn *RE Today*, a Chynghorydd Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol, ac Angela Hill, sy'n Gynghorydd Cenedlaethol i RE Today yng Nghymru.

Jennifer Harding-Richards, Ymgynghorydd ar Addysg Grefyddol i'r awdurdodau lleol yn rhanbarth Partneriaeth, yw cyfarwyddwr y prosiect ar gyfer y deunyddiau cymorth hyn. Gellir cysylltu â hi trwy anfon neges e-bost at: Jennifer.Harding-Richards@swansea.gov.uk

Gobeithio y bydd yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol ac yn ddifyr i'w defnyddio. Croesewir adborth adeiladol. Byddwn yn ddiolchgar iawn bob amser am enghreifftiau o waith dysgwyr a luniwyd trwy ddefnyddio'r syniadau yn y deunyddiau hyn.

Teitl: Dathliadau

Y Grŵp Oedran a Awgrymir: plant 6-7 oed

Crefyddau/argyhoeddiadau athronyddol: Hindŵiaid, Cristnogion, Mwslimiaid

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn ofyniad statudol yn Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae CGM yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae'r Maes yn cynnwys Daearyddiaeth; Hanes; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu nifer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin, er bod ganddynt eu corff penodol o wybodaeth a sgiliau eu hunain. Mae'r deunyddiau cymorth hyn yn canolbwyntio ar CGM.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i CGM fod yn feirniadol, yn wrthrychol ac yn blwraliaethol: mae'r deunyddiau cymorth yn cymhwyso'r egwyddorion hyn.

Gwybodaeth am yr adnodd hwn:

Mae cwricwlwm i Gymru yn gosod astudiaethau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae'r deunyddiau cymorth hyn yn rhoi cynlluniau ymarferol o ansawdd uchel i athrawon, sy'n amlygu dysgu da ym maes CGM ynghylch rhai dathliadau allweddol ar gyfer Hindŵiaid, Cristnogion a Mwslimiaid. Rhoddir cyfle i blant ddyfnhau eu dealltwriaeth o gysyniadau crefyddol sy'n ymwneud â dathliadau, gan feddwl am y modd y mae dathliadau yn mynegi credoau, syniadau, gwerthoedd a hunaniaethau crefyddol.

Bydd y gwaith yn gosod safonau uchel ym maes CGM trwy herio plant i gofio gwybodaeth gyfoethog newydd ac i feddwl am amrywiaeth, gan nodi'r hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng crefyddau.

Bwriedir iddo fod yn enghraifft o arfer da o ran CGM ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau Cwricwlwm i Gymru 2022.

Amcangyfrif o'r amser y bydd yn ei gymryd i gyflawni'r gwaith hwn (mewn oriau): 4-6 awr o amser addysgu. Byddwch yn ddetholus a gwnwch y gwaith y mae angen i'ch ysgol ei wneud yn fanwl, yn hytrach nag ymdrin â gormod o gynnwys mewn modd arwynebol. Ym maes CGM, mae ar y dysgwyr angen cyfleoedd i fyfyrion ddwfn ar gwestiynau a syniadau mawr: weithiau, gall fod yn ddoeth caniatáu i'r dysgwyr 'aros yn hirach a chloddio'n ddyfnach'.

Ble y mae hyn yn ffitio?

Gall y cynllun hwn adeiladu ar waith CGM blaenorol, er enghraifft dysgu am ddaliadau ac arferion sylfaenol y tair crefydd dan sylw. Bydd yr uned hon yn darparu gwybodaeth a dealltwriaeth i baratoi dysgwyr i astudio adnoddau Blwyddyn 3 ar symbolau. Gall athrawon barhau i archwilio syniadau o ran symbolaeth gyda'r dysgwyr yn yr unedau sy'n dilyn. Efallai y bydd gan y dysgwyr ryw faint o wybodaeth eisoes o wersi, neu o'u bywydau eu hunain am leoedd cysegredig. Dylid gwneud y dysgwyr yn ymwybodol bod yna lawer o grefyddau a'u bod yn debyg ac yn wahanol – nid yw pawb, hyd yn oed y rhai o'r un crefydd – yn dathlu yn yr un ffordd. Mae'r cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau yn amlwg mewn sawl man yn y deunyddiau hyn, y gellir eu gweld fel ffordd o weithio ochr yn ochr neu mewn modd integredig ag Astudiaethau Cymdeithasol, Hanes, Astudiaethau Busnes a Daearyddiaeth. Mae yna gysylltiadau llythrennedd da yma hefyd, yn enwedig lle mae'r plant yn dechrau dysgu am iaith ffigurol. Mae'r uned yn helpu plant i weld y tu hwnt i wyneb dathliad, a dechrau ystyried ystyron ac arwyddocâd symbolaidd yr hyn sy'n digwydd.

Gall fod yn anodd i blant 6-7 oed ymdrin â thair crefydd, felly mae croeso i chi ddewis a dethol, gan ystyried y camau blaenorol a'r camau nesaf o ran dysgu'r dysgwyr. Gall canolbwyntio ar 'briif ddathliad' o bob ffydd fod yn ffordd dda o weithredu, a gall roi cipolwg i'r dysgwyr ar rai credoau a gwerthoedd allweddol.

Cwricwlwm i Gymru:
Yr Hyn sy'n Bwysig

Sut y mae'r deunyddiau hyn yn cysylltu â'r datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig?

(Pedair Blaenoriaeth MDPH y Dyniaethau)	
Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol	Bydd y dysgwyr yn archwilio cwestiynau ynghylch pam a sut y daeth dathliadau crefyddol allweddol i'r amlwg, a pham a sut y maent yn dal i fod yn rhan o fywyd crefyddol i lawer heddiw. Bydd y dysgwyr yn dod i wybod am ddathliadau allweddol tair crefydd wahanol yn y byd heddiw.
Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn ffyrdd gwahanol.	- Bydd y dysgwyr yn dechrau dod i wybod am ddathliadau fel mynegiant o hunaniaeth grefyddol, perthyn, gwerthoedd ac argyhoeddiadau. - Bydd y dysgwyr yn dod i wybod am ystyron gwahanol a safbwyntiau amrywiol mewn perthynas â dathliadau o dair crefydd.
Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac yn cael eu llunio gan weithredoedd a chredoau dynol.	- Bydd y dysgwyr yn darganfod ffeithiau am y modd y mae dathliadau wedi dod i'r amlwg ac esblygu. - Bydd y dysgwyr yn dod i ddeall yr amrywiaeth o ffyrdd y gall pobl grefyddol ddathlu digwyddiadau neu draddodiadau pwysig.
Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesegol.	- Bydd y dysgwyr yn dysgu am amrywiaeth ac yn ystyried yr hyn y mae dathliadau yn ei olygu i unigolion a chymunedau. - Trwy astudio rhai dathliadau allweddol, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o ran gwerthoedd sydd o bwys i Hindŵiaid, Mwslimiaid a Christnogion.

Themâu, sgiliau a dibenion

Yn unol â gofynion y canllawiau CGM, mae'r deunyddiau cymorth hyn wedi cael eu llunio i gyd-fynd â model o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm sy'n ymgorffori cyfleoedd priodol i ddysgu am ac ystyried themâu trawsbynciol yn Cwricwlwm i Gymru. Mae'r themâu trawsbynciol hyn fel a ganlyn: gyrfaedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith; hawliau dynol; amrywiaeth; cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, ac addysg cydberthynas a rhywioldeb. Rydym hefyd wedi rhoi sylw yma i bwysigrwydd sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn ogystal â'r sgiliau sy'n rhan annatod o'r pedwar diben (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Mae'r holl faterion croestoriadol hyn wedi'u hymgorffori yn y modd y mae'r deunyddiau cymorth hyn wedi'u creu.

Cliciwch ar y ddolen hon i gael rhagor o wybodaeth: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/>

Egwyddorion cynnydd CGM ar waith:	Cyfrannu at gynnydd ym maes CGM:
Cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth.	- Bydd y dysgwyr yn dod i wybod am amrywiaeth crefyddol, gan feithrin gwybodaeth gyfoethog am ddathliadau Hindŵaidd, Cristnogol a Mwslimaidd. - Bydd y dysgwyr yn cael eu herio i fynd ati o'u pen a'u pastwn eu hunain i ddefnyddio eu gwybodaeth gynyddol i nodi ystyron a gwneud synnwyr o debygrwydd a gwahaniaethau.
Dyfnhau dealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.	- Yn syml, bydd y dysgwyr yn defnyddio dulliau penodol o astudiaethau crefyddol i wneud mwy o synnwyr o'r byd. - Bydd y dysgwyr yn cael profiad o ddefnyddio disgyblaethau gwahanol yn eu hastudiaethau CGM, gan gynnwys dulliau diwinyddol, cymdeithasegol a hanesyddol.
Mireinio sgiliau, a magu soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso.	- Bydd y dysgwyr yn ymarfer sgiliau awgrymu ystyron, gwneud synnwyr o ddeunyddiau crefyddol a dehongli credoau a gwerthoedd ar lefelau sy'n briodol i'w hoedran. - O amrywiaeth eang o ddulliau dysgu, bydd y dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth gynyddol o ffyrdd o wneud synnwyr o grefyddau a chredoau, ac yn esbonio'r hyn sy'n bwysig am ddathliadau cyffredin.
Creu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd.	- Anogir y dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng crefyddau a bydolygon gwahanol, a dylid eu hannog hefyd i feddwl am ddathliadau yn eu bywydau eu hunain. - Bydd y dysgwyr yn cael eu herio i ddefnyddio eu dysgu mewn cyd-destunau newydd.
Meithrin effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr.	- Bydd y dysgwyr yn dysgu sut i feithrin a defnyddio gwybodaeth gyfoethog am ddathliadau Hindŵaidd, Mwslimaidd a Christnogol. - Bydd y dysgwyr yn dysgu disgrifio ac esbonio crefyddau a bydolygon, gan gymhwyso syniadau mewn modd creadigol drostynt eu hunain; byddant yn gwneud hyn trwy, er enghraifft, awgrymu pa agweddau ar ddathliadau sy'n mynegi credoau a hunaniaeth yn fwyaf clir.

Mae CGM yn y deunyddiau cymorth hyn yn cynnwys meithrin gwerthoedd, rhinweddau ac agweddau cadarnhaol sy'n cyfrannu at lesiant y dysgwyr:

- Cariad at ddysgu:** mwynhau darganfod syniadau newydd am grefydd a chred trwy astudio rhai dathliadau allweddol ar gyfer Hindŵaidd, Cristnogion a Mwslimiaid.
- Parch at bawb:** deall ystyr dathliadau sy'n cael eu cynnal yn ein cymunedau yng Nghymru, ac yn y byd ehangach.
- Bod â meddwl agored:** bod yn barod i ddysgu am ddathliadau a'u hystyr y tu allan i bwyntiau cyfeirio diwylliannol/cred y dysgwyr eu hunain.
- Gwerthfawrogiad a rhyfeddod:** archwilio harddwch ac ysblander dathliadau, gan ymchwilio i'r ystyr dyfnach i gredinwyr; meddwl am werth yr amrywiaeth o ddathliadau yn ein cymdeithasau amlddiwylliannol, amlgrefyddol ac amlseciwlar.

Dysgu Blaenorol	Geirfa CGM gyfoethog	Adnoddau i athrawon eu harchwilio – ni fydd arnoch angen y rhain i gyd, ond maent yn dangos ystod o bosibiliadau
Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r dysgwyr yn meddu ar y canlynol: Rhywfaint o wybodaeth flaenorol am y tair crefydd a dealltwriaeth ohonynt. Atgoffwch nhw o waith astudio cynharach. Defnyddiwch ddulliau dysgu adalw i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn gallu cyrchu eu CGM o'r babanod wrth iddynt fynd i'r afael â'r pwnc newydd hwn yn fanylach.	Bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion sy'n ymwneud â'r canlynol: Dathlu Gŵyl Arwydd Symbol Ystyr Ystum Trosiad Delwedd/delweddaeth Arteffactau Hindŵaidd: Y Symbol Aum Arwyddion o ymroddiad i dduwiau a duwiesau Arteffactau Cristnogol: Croesau, croes balmwydd, bynen y Grog, cymeriadau'r Geni, cardiau Pasg/Nadolig Arteffactau Mwslimaidd: Mat gweddi, topi, Qur'an, stand Qur'an, Seren a Lleuad Gilgant, cardiau Eid	Adnoddau - Detholiad o'r hoff lyfrau gwybodaeth syml am Hindŵiaid, Cristnogion a Mwslimiaid. - Pecynnau ffotograffau/pecynnau lluniau yn dangos dathliadau mewn Hindŵaeth, Cristnogaeth ac Islam. - Adnoddau ar gyfer Penblwyddi (cardiau, canhwyllau, anrheg esgus) - Ciwiau gweledol ar gyfer dathliadau, gan gynnwys y Cynhaeaf, y Pasg, y Nadolig, Eid, Ramadan, Diwali. - Storiâu Cristnogol: Arch Noa, Daniel a'r Llewod, Dafydd a Goliath, dyddiau olaf Iesu - Storiâu Mwslimaidd: Noson y Grym, Muhammad wrth byrth Makkah - Storiâu Hindŵaidd: Achub Sita (Storiâu Diwali) - Caneuon neu gerddoriaeth Gristnogol, Hindŵaidd a Mwslimaidd. - Mae gan y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Athrawon Addysg Grefyddol (NATRE) fan cychwyn gwyb ar y we ar gyfer y materion hyn: mae http://www.natre.org.uk/about-natre/projects/spirited-arts/introduction/ yn galluogi dysgwyr i weld a barnu gweithiau celf niferus gan bobl ifanc ar syniadau crefyddol ac ysbrydol allweddol. - Mae Addysg Grefyddol BBC Bitesize ar gyfer CA2 hefyd yn fan cychwyn da: - Y porth gorau ar gyfer gwefannau Addysg Grefyddol yw: www.reonline.org.uk - Mae gan TrueTube fideos defnyddiol ar gyfer Addysg Grefyddol yn CA2: https://www.truetube.co.uk/search/?_sft_key_stages=1&_sft_length=0+500++++&sort_order=relevance+desc - Canllaw i ysgolion cynradd ar Wythnos y Pasg: https://www.westminster-abbey.org/teaching-resources/holy-week-a-short-guide-for-primary - Wythnos y Pasg ar REQuest.org.uk: https://request.org.uk/resource/restart/2017/03/14/holy-week-and-easter/ - Stori'r Pasg Cyfnod Allweddol 1 y BBC: https://www.bbc.co.uk/teach/class-clips-video/religious-studies-ks1-the-christian-story-of-easter/zghv47h Teithiau rhithwir: - Mae CYSAG Cumbria yn rhannu ei adnoddau rhagorol yn rhad ac am ddim ar-lein – mae yma ddolenni i ddwsinau o deithiau rhithwir da o amgylch adeiladau cysegredig. https://www.cdec.org.uk/use-our-resources/films-and-virtual-tours/virtual-tours/ - Mae Birmingham Faith Visits yn brosiect gwyb: 18 o ffilmiau byr o chwe phrif adeilad crefyddol yn Birmingham, pob un yn addas ar gyfer plant mewn ysgolion cynradd, ynghyd â llawer o adnoddau cymorth: https://birmingham-faith-visits.theartssociety.org/ - I gael rhagor o wybodaeth, ewch i https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/places-of-worship-voices-from-religion-and-worldviews/ Adnoddau printiedig <i>Talking Pictures</i>: dysgu gweledol am Iddewon, Cristnogion a Mwslimiaid gan RE Today <i>What happens in?</i> Chwe darlun trawstoriadol hardd o brif adeiladau crefyddol ar gyfer y bwrdd gwyn ac ar ffurf cardiau poster, ynghyd â llyfr syniadau gan RE Today - Y gyfres Inspiring RE: <i>Hindus, Muslims, Christians, Living without God</i>, a olygwyd gan Fiona Moss, RE Today Storiâu - Gellir dod o hyd i ragor o enghreifftiau o storiâu ffydd yn siop ar-lein NATRE yma: https://shop.natre.org.uk/category/stories.isla.pr Mae yna lawer o storiâu crefyddol rhad ac am ddim ar gael o'r man cychwyn hwn, ynghyd â syniadau dysgu da
Cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr (Mae CGM yn cyfrannu at y cyfrifoldeb ysgol gyfan hwn)		

- **Ysbrydol:** Trafod cwestiynau allweddol am ystyr sydd wrth wraidd traddodiadau ac arferion crefyddol, a myfyrio arnynt.
- **Moesol:** Ystyried yr hyn y mae'n ei olygu i barchu eraill, gan gynnwys aelodau o'r gymuned grefyddol.
- **Cymdeithasol:** Mynegi eu syniadau eu hunain a syniadau pobl eraill am symbolaeth mewn crefydd ac yn eu bywydau eu hunain.
- **Diwylliannol:** Dod i gysylltiad â phobl, llenyddiaeth, celfyddydau ac adnoddau o ddiwylliannau Hindŵaidd, Cristnogol a Mwslimaidd.

Sut y mae'r deunyddiau cymorth hyn yn helpu i ddatblygu ymgysylltiad y dysgwyr â'r themâu trawsbynciol?

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#cross-cutting-themes>

- **Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:** byddwn yn edrych ar enghreifftiau o ddathliadau yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, gan annog y dysgwyr i bwyso a mesur yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol o fewn ac ar draws crefyddau, diwylliannau a lleoliadau daearyddol.
- **Gyrfaoedd a phrofiad cysylltiedig â gwaith:** byddwn yn tynnu sylw at swyddi gwaith gwahanol wrth ddathlu digwyddiadau pwysig, gan annog y dysgwyr i feddwl am rolau'r rhai sy'n cymryd rhan.
- **Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth:** byddwn yn ystyried, lle bynnag y bo'n briodol, bwysigrwydd rhyddid i ddathlu digwyddiadau pwysig.
- **Addysg cydberthynas a rhywioldeb:** byddwn yn siarad am werthoedd cariad, haelioni, gofal, maddeuant a chymuned a'r modd y mae dathliadau yn helpu i feithrin perthnasoedd cadarnhaol ymhlith teuluoedd, cylchoedd cymdeithasol a chymunedau.

DISGWYLIADAU O'r deunyddiau cymorth hyn:	
Bydd bron pob dysgwr yn gallu gwneud y canlynol:	• Adnabod rhai dathliadau crefyddol allweddol • Egluro'n syml ystyr ac arwyddocâd o leiaf un dathliad crefyddol allweddol ar gyfer pob crefydd a astudiwyd yma • Disgrifio rhai o'r ffyrdd y mae credinwyr yn nodi dathliadau pwysig • Myfyrio ar eu profiadau eu hunain o ddathliadau mewn perthynas â'r hyn y maent yn ei ddysgu yma
Bydd mwyafrif y dysgwyr yn gallu gwneud y canlynol:	• Gan gyfeirio at ffynonellau crefyddol allweddol, egluro cefndir o leiaf un dathliad crefyddol ar gyfer pob crefydd a astudiwyd • Defnyddio eu gwybodaeth newydd i ddisgrifio ac egluro rhai o'r symbolau a'r arferion allweddol sy'n rhan o ddathliadau crefyddol • Siarad am rai o'r credoau a'r gwerthoedd sy'n sail i'r dathliadau hyn • Adnabod ac egluro rhai elfennau tebyg a gwahanol o fewn ac ar draws dathliadau crefyddol
Bydd llawer o'r dysgwyr yn gallu gwneud y canlynol:	• Disgrifio gwerthoedd o'r tair crefydd, ac egluro'r modd y mae'r rhain yn cael eu mynegi trwy'r dathliadau a astudiwyd • Nodi a disgrifio credoau a syniadau tebyg a fynegir yn symbolaidd mewn cyd-destunau crefyddol neu seciwlar gwahanol trwy ddathliadau • Gwneud cysylltiadau rhwng eu hadegau dathlu eu hunain a'r rhai o'r crefyddau a astudiwyd yma
Bydd rhai o'r dysgwyr yn gallu gwneud y canlynol:	• Defnyddio eu gwybodaeth i fynegi, yn annibynnol, ystyron dathliadau • Defnyddio syniadau megis delweddaeth, symbolaeth, ystum neu iaith y corff mewn perthynas â dathliadau • Mynd ati mewn modd syml i ddehongli ystod amrywiol o syniadau am ystyr ac arwyddocâd dathliadau
Aseu a chyflawniad Syniadau posibl ar gyfer casglu tystiolaeth o gynnydd a chyrhaeddiad • Cofnodi syniadau o drafodaethau dosbarth a grŵp • Gweithgaredd ar wyddor y Pasg ac ansoddeiriau'r Pasg • Dyluniadau wyau <i>pysanky</i> • Creu lampau <i>diva</i> a chardiau Diwali • Cynlluniau gwahoddiadau Eid ul-Fitr	

Beth yr ydych yn ei ddathlu a pham? Is-lensys: chwilio am ystyr a diben, hunaniaeth a pherthyn, awdurdod a dylanwad, taith bywyd			
Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Mae dathliadau yn meithrin ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn yn y bywyd Cristnogol, Mwslimaidd a Hindŵaidd: enghreifftiau, defnydd, ystyron. Syniadau/geirfa allweddol: Dathliadau, hunaniaeth, cymuned, cerddoriaeth, dawns, storïau, cofio/coffáu Sybsidiaredd: Gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydolwg arall at yr astudiaeth.	Meddwl am ddathliadau - Gofynnwch i'r dysgwyr, mewn parau, rannu eu 'diwrnodau mawr'. - Beth yw eu hoff ddiwrnod o'r wythnos? - Beth yw'r diwrnod gorau y gallant ei gofio? - Siaradwch â'r dysgwyr a chydweithiwch i greu map meddwl o 'ein hoff ddathliadau'. Gall hyn gynnwys penblwyddi, priodasau, cyflawniadau chwaraeon, digwyddiadau diwylliannol a digwyddiadau crefyddol. Pa storïau sy'n cael eu hadrodd yn eu dathliadau mawr? Ble? Sut? Bwyd? Cerddoriaeth? Storïau? - Datblygwch y map meddwl ymhellach i gynnwys syniadau am leoliad dathliad - yr addurniadau a ddefnyddir - y bwyd a fwyteir - caneuon neu ddawnsiau arbennig - geiriau arbennig - y bobl sy'n bresennol - Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu'n syml am eu hoff ddathliad gan ddefnyddio'r map meddwl i ysgogi eu meddyliau. Fel arall, gellid gofyn i'r dysgwyr weithio mewn grŵp i gynllunio dathliad pen-blwydd ar gyfer tegan yn y dosbarth, dol bersona neu aelod o staff. Beth y byddai angen iddynt ei wneud i wneud y digwyddiad yn un cofiadwy? - Trafodwch pam y mae dathliadau'n bwysig a dangoswch fod pob dathliad yn cael ei gynnal am reswm. Pa ddathliadau neu wyliau y mae'r dysgwyr yn gwybod amdanynt? O ba grefyddau y maent yn dod? Am beth y mae'r dathliadau? Beth y mae pobl yn ei wneud i ddathlu? Gallai'r dysgwyr ddefnyddio'r categorïau ar y map meddwl i siarad am ŵyl y maent yn gwybod amdani.	Deall beth yw ystyr dathliad Cynnig syniadau ynghylch pam y mae dathliadau'n bwysig, a'r modd y maent yn cysylltu â storïau, a digwyddiadau pwysig ym mywydau pobl Disgrifio rhai o nodweddion dathliadau, gan feddwl yn ofalus am wahaniaethau a thebygrwydd Dwyn i gof ffeithiau a syniadau am ddathliadau crefyddol y mae'r dysgwyr eisoes yn gyfarwydd â nhw	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn.

Beth y gallwn ei ddysgu am y Pasg o'r pethau yr ydym yn eu cysylltu ag ef? Is-lensys: chwilio am ystyr a diben, hunaniaeth a pherthyn, awdurdod a dylanwad, taith bywyd			
Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Mae dathliadau yn meithrin ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn yn y bywyd Cristnogol, Mwslimaidd a Hindwaidd: enghreifftiau, defnydd, ystyron. Syniadau/geirfa allweddol: Y Pasg, cardiau Pasg, y groes, wyau Pasg, gwyliau (o'r dydd gŵyl) Sybsidiaredd: Gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydolwg arall at yr astudiaeth.	Beth yr ydym yn ei gysylltu â'r Pasg? - Anogwch y dysgwyr i nodi enghreifftiau o fywyd a phrofiad yng Nghymru, megis dathlu'r Pasg mewn eglwysi lleol, gan nodi'r hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng mathau gwahanol o eglwysi. Anogwch y dysgwyr i fyfrio ar eu profiadau eu hunain o dathlu'r Pasg yng Nghymru (ac efallai mewn mannau eraill os ydynt wedi profi'r Pasg mewn rhannau eraill o'r byd neu os oes ganddynt deulu neu ffrindiau sydd wedi gwneud hynny). Gofynnwch i'r dysgwyr ddod ag un neu ddau wrthrych neu lun i'r dosbarth y maent yn eu cysylltu â'r Pasg (gwnwch yn siŵr bod gennych amrywiaeth o gardiau Pasg, wy Pasg, croes, a rhai arteffactau nodweddiadol eraill sy'n gysylltiedig â'r Pasg rhag ofn nad yw gwrthrychau'r dysgwyr yn ddigon amrywiol). Gwasgarwch yr holl ddeunyddiau. Gofynnwch gwestiynau am unrhyw beth nad yw'n cysylltu'n amlwg â'r Pasg, gan ofyn i'r dysgwyr a ddaeth ag ef i ddweud rhywbeth amdano. Gall hyn roi cyfleoedd i'r dysgwyr drafod y Pasg mewn diwylliannau ac aelwydydd gwahanol a siarad am gynefin. Caniatwch amser i edrych ar yr hyn a gasglwyd ac i siarad â chyd-ddisgyblion am yr hyn y maent yn ei weld. Trafodwch y canlynol â'r dosbarth cyfan: 'Beth y gallwn ei ddysgu am y Pasg o'r pethau hyn?' Wrth i'r dysgwyr wneud awgrymiadau, gofynnwch iddynt roi rhesymau dros eu hymatebion. A allant feddwl am bum ansoddair sy'n crynhoi'r Pasg o edrych ar y lluniau a'r gwrthrychau sy'n gysylltiedig â'r Pasg. Efallai y gallai'r dosbarth weithio gyda'i gilydd i geisio categorio'r pethau sy'n ymwneud â dathliadau crefyddol neu'r Pasg a'r rhai nad ydynt o bosibl. Bydd hyn yn heriol i lawer o'r dysgwyr ond gall arwain at archwiliad manwl - Ar ôl ystyried lluniau a gwrthrychau'r dosbarth, gosodwch weithgaredd ysgrifennu sy'n galluogi'r dysgwyr i ddysgu am storïau a dathliadau Wythnos y Pasg: efallai y gallent ddiffinio geiriau allweddol, didoli a threfnu brawddegau, paru ymadroddion neu greu 'Yr Wyddor ar gyfer y Pasg' mewn grŵp: Aberth / Basged / Croes / Dydd Gwener y Groglith / Ebrill ... ac ati - Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am adeg y Pasg. Sut y maent yn gwybod bod y Pasg yn dod? Anogwch y dysgwyr i ystyried y syniad bod y Pasg bob amser yn ystod y gwanwyn, cael amser i ffwrdd o'r ysgol, yr hyn sydd yn y siopau, ar y teledu, y lleoedd y gallent fynd iddynt, ac ati. Yma, efallai yr hoffech drafod â'r dysgwyr pam y mae pobl yn cael amser i ffwrdd o'r ysgol neu'r gwaith dros y Pasg? Dywedwch wrth y dysgwyr fod y gair gwyliau yn tarddu o 'gwyliau sanctaidd' ac, yng Nghymru/y DU, fod dyddiau i ffwrdd o'r ysgol a'r gwaith yn aml yn cael eu hamserlennu oherwydd gwyliau Cristnogol, e.e. gwyliau'r Pasg, gwyliau'r Nadolig. Beth yw barn y dysgwyr am hyn? Mae hwn yn gyfle da i siarad am y modd y mae gan Gymru a'r DU draddodiadau sy'n seiliedig ar Gristnogaeth, ond hefyd i feddwl a fydd hyn yn newid/a ddylai hyn newid 'nawr bod Cymru/y DU yn gartref i bobl o sawl ffydd wahanol neu heb ffydd.	Defnyddio'r geiriau cywir i nodi delweddau ac arteffactau sy'n gysylltiedig â'r Pasg Egluro'r cysylltiadau rhwng delweddau ac arteffactau a dathliadau'r Pasg Cynnig syniadau am ddelweddau ac arteffactau sydd ag arwyddocâd crefyddol yn nathliad y Pasg Disgrifio rhai o nodweddion y Pasg ac awgrymu ansoddeiriau i ddod i rai casgliadau ynghylch sut beth yw'r Pasg i'r rhai sy'n ei ddathlu Siarad am bwysigrwydd dyddiau gŵyl fel 'gwyliau' a deall bod rhai gwyliau yng Nghymru a'r DU yn seiliedig ar draddodiadau Cristnogol Trafod y syniad o wyliau Cristnogol fel gwyliau yng nghyd-destun Cymru amlffydd, amlseiciwlar	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn.

	Ar ôl meddwl am lawer o bethau sy'n gysylltiedig â'r Pasg, dywedwch wrth y dysgwyr mai'r Pasg yw amser pwysicaf y flwyddyn i lawer o Gristnogion. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am resymau pam y gallai hyn fod, gan eu hannog i dynnu ar eu dysgu blaenorol a'u gwybodaeth a'u profiadau personol.		
--	--	--	--

Beth y mae Cristnogion yn ei gofio ac yn ei ddathlu dros y Pasg? Is-lensys: chwilio am ystyr a diben, hunaniaeth a pherthyn, awdurdod a dylanwad, taith bywyd			
Cymwysiaidau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Mae dathliadau yn meithrin ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn yn y bywyd Cristnogol, Mwslimaidd a Hindŵaidd: enghreifftiau, defnydd, ystyron. Syniadau/geirfa allweddol: Y Pasg, Wythnos y Pasg, Dramâu'r Dioddefaint, croes, croeshoeliad, atgyfodiad, Iesu, Sul y Blodau, y Swper Olaf Sybsidiaredd: Gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydolwg arall at yr astudiaeth.	Beth yr ydym yn ei wybod am Gristnogion a'u dathliadau ar gyfer Wythnos y Pasg a'r Pasg? - Gofynnwch y cwestiwn, 'Beth y mae Cristnogion yn ei gofio dros y Pasg?' Defnyddiwch ymatebion i fesur gwybodaeth flaenorol. Addysgwch y dysgwyr am ddigwyddiadau Wythnos y Pasg. Dywedwch rai storïau o wythnos olaf bywyd Iesu wrth y plant: mynd i Jerwsalem ar Sul y Blodau, Iachâu, y Swper Olaf, marwolaeth Iesu a'r Bedd Gwag. Mae cerddoriaeth, dawnys a drama yn adnoddau da ar gyfer y dysgu hwn. Mae llawer o glipiau ac adnoddau ar gael yn hawdd i gefnogi hyn, e.e. https://request.org.uk/resource/restart/2017/03/14/holy-week-and-easter/ neu defnyddiwch yr adnoddau PowerPoint yn: https://www.westminster-abbey.org/teaching-resources/holy-week-a-short-guide-for-primary. Sicrhewch fod y dysgwyr yn gyfarwydd â threfn y digwyddiadau: - Yr orymdaith i Jerwsalem (Sul y Blodau) - Troi'r byrddau drosodd yn y Deml - Golchi traed ei ffrindiau a'r Swper Olaf - Cael ei fradychu gan Jwdas, ei arestio a'i wadu gan Pedr - Y Croeshoeliad - Y bedd gwag a bore Sul y Pasg Ystyriwch ddefnyddio darluniau/gweithiau celf o'r digwyddiadau a'u rhoi, mewn trefn, ar 'lein ddillad', gyda phawb yn y dosbarth yn cydweithio. Mae gan yr Oriel Genedlaethol ddelweddau da: http://www.nationalgallery.org.uk/paintings/the-easter-story. Trafodwch â'r dysgwyr yr hyn y mae artistiaid y delweddau hyn yn ceisio ei ddangos i ni am y digwyddiadau? Sut y maent yn gwneud hyn? Gall hyn ddyfnhau dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y dysgwyr o arwyddocâd pob digwyddiad. - Defnyddiwch Ddrama Dioddefaint Michael Sheen ym Mhort Talbot yn esiampl i sicrhau bod yna ddealltwriaeth leol o'r Pasg yng Nghymru. https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-west-wales-13176102 – beth y mae hyn yn ei ddweud am yr hyn y mae'r Pasg yn ei olygu i Gristnogion? Beth am ei bwysigrwydd fel gŵyl yng Nghymru? - Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl eto am y gwrthrychau a'r lluniau a ystyriwyd ganddynt. Pa gysylltiadau y gallant ddod o hyd iddynt? A oes unrhyw rai o'r lluniau/gwrthrychau hyn yn symbolaidd o ddigwyddiadau Wythnos y Pasg? Sut? Awgrymwch gysylltiadau i'r dysgwyr gan y gall hyn ofyn am ffordd o feddwl soffistigedig. - Gwylwch y clip hwn o gyfres <i>My Life, My Religion</i> y BBC, lle mae Nathan o Lerpwl yn dathlu'r Pasg: https://www.bbc.co.uk/programmes/p02mww94. Trafodwch: Beth y mae	Deall rhai o ddigwyddiadau allweddol Wythnos y Pasg Egluro'r cysylltiadau rhwng o leiaf un o ddigwyddiadau Wythnos y Pasg a dathliadau'r Pasg heddiw Dechrau deall y modd y mae symbolau, megis y rhai ar yr wyau <i>pysanky</i>, yn gallu helpu Cristnogion i gofio digwyddiadau allweddol Wythnos y Pasg Disgrifio rhai ffyrdd y gall Cristnogion ddathlu'r Pasg Cynnig syniadau ynghylch pam y mae'r Pasg yn ŵyl mor bwysig i Gristnogion	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn.

	Nathan yn ei wneud sy'n dangos pwysigrwydd y Pasg i'w ffydd Gristnogol? Sut y mae'r gweithgareddau hyn yn cysylltu â digwyddiadau Wythnos y Pasg? • Wyau Pasg <i>Pysanky</i>. Edrychwch gyda'r dysgwyr ar rai enghreifftiau ar-lein o'r wyau Wcreinaidd hyn, ac ewch ati gyda'ch gilydd i ddarganfod eu hanes a'u pwysigrwydd i Gristnogion yn Wcráin. A yw'r dysgwyr yn gallu gweld rhai symbolau sy'n gysylltiedig â Christnogaeth arnynt, e.e. smotiau ar gyfer dagrau Mair, rhwydi ar gyfer disgyblion Iesu a oedd yn bysgotwyr, croes ar gyfer Iesu a'i gariad, pysgodyn ar gyfer Cristnogaeth, triongl ar gyfer y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân. Helpwch y dysgwyr i ddarganfod rhagor am y symbolaeth, a defnyddio eu gwybodaeth i greu eu <i>pysanky</i> eu hunain yn gysylltiedig â'r Pasg. Rhoddir <i>pysanky</i> mewn basgedi Pasg yn Wcráin. Gall y dysgwyr ddysgu am yr eitemau eraill sydd yn y basgedi, a'u symbolaeth, a hyd yn oed mynd ymlaen i ail-greu basged. Fel her greadigol, gofynnwch i'r dysgwyr ddylunio Wy Pasg <i>pysanky</i> sy'n dangos y modd y mae pobl yng Nghymru yn dathlu'r Pasg. • Trefnwch gwis am bopeth y mae'r plant yn ei wybod ac wedi'i ddysgu am y Pasg • Gosodwch dasg ysgrifenedig sy'n gofyn i'r dysgwyr ddangos eu dealltwriaeth o un peth y mae Cristnogion yn ei gofio adeg y Pasg ac un ffordd y maent yn cofio hyn. Anogwch nhw i fod yn greadigol a darlunio eu gwaith. I estyn hyn, gofynnwch iddynt ysgrifennu brawddeg i egluro pam y mae'r Pasg yn ŵyl bwysig i Gristnogion.		
--	--	--	--


Beth y mae Hindŵiaid yn ei gofio yn ystod Diwali?			
Is-lensys: chwilio am ystyr a diben, hunaniaeth a pherthyn, awdurdod a dylanwad, taith bywyd			
Cymwysiaidau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Mae dathliadau yn meithrin ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn yn y bywyd Cristnogol, Mwslimaidd a Hindŵaidd: enghreifftiau, defnydd, ystyron. Syniadau/geirfa allweddol: Diwali, Rama a Sita, patrymau rangoli, golau, lampau <i>diva</i>, Lakshmi Sybsidiaredd: Gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydlwng arall at yr astudiaeth.	Beth yr ydym yn ei wybod am Diwali? Beth yw'r stori a beth yw'r dathliad? - Anogwch y dysgwyr i nodi enghreifftiau o fywyd a phrofiad yng Nghymru, megis dathliadau Diwali lleol. Gallech ddangos y clip hwn gan y BBC i'r dysgwyr am Diwali yng Nghaerdydd (efallai y bydd yn anodd i blant 6-7 oed, ond mae'n ddiddorol) https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zt42tfr/articles/zkkvt39 - Trefnwch weithgaredd ysgrifennu sy'n galluogi'r dysgwyr i ymateb i'r cwestiwn yn y teitl: Pa stori ddaw o ddechrau dathliadau'r Diwali? I ddangos eu bod yn gwybod pam y mae Hindŵiaid yn diolch i'r dduwies Lakshmi adeg Diwali ac i wybod am ystyr a nodweddion allweddol yr ŵyl Hindŵaidd, Gŵyl y Goleuni, a elwir yn Diwali - Dathlu Diwali: diolchgarwch am ddod adref yn ddiogel. - Darlennwch hanes Rama yn dychwelyd o alltudiaeth a'i aduniad â Sita. Ewch ati i adrodd y stori trwy chwarae rôl. Gwnewch fygyddau â deunyddiau paentio a <i>collage</i>. - Trafodwch brif nodweddion y ffordd y mae Hindŵiaid yn dathlu Diwali. Siaradwch am yr ystyr a'r symbolaeth. - Defnyddiwch amrywiaeth o lyfrau i ddarlunio bywyd teuluol Hindŵaidd fel cefndir, yn enwedig trwy lygaid y plant. - Gwnewch sawl <i>diva</i> allan o glai. Gwnewch gardiau Diwali gan ddefnyddio addurniadau priodol, ychwanegwch gyfarchiad addas a lliwiwch batrymau Rangoli. Cynhaliwch barti Diwali ac ewch ati i wneud a blasu losin Diwali a bwydydd eraill. Daliwch ati i siarad am y syniad allweddol mawr: golau yn erbyn tywyllwch – golau sy'n ennill! - Siaradwch am Lakshmi (y dduwies ffawd dda Hindŵaidd) yn Diwali, pan roddir diolch i'r dduwies am ei ffafr a'i ffyniant yn ystod y flwyddyn flaenorol, a lle bo ymroddiad iddi yn gofyn am fendithion y flwyddyn ganlynol. - Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am eu dymuniadau ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Gellir gwneud cysylltiadau naturiol yma â'r gwyliau sy'n cael eu dathlu gan unrhyw blentyn mewn unrhyw deulu.	Egluro mewn ffordd syml yr hyn yw Diwali Ailadrodd stori Rama a Sita (y mwyafrif o blant 7 oed). Egluro'r cysylltiadau rhwng stori Rama a Sita a'r dathliadau Diwali Siarad am ystyr a symbolaeth Diwali. Dechrau gallu egluro beth y mae hyn yn ei ddangos am greddoau a gwerthoedd Hindŵaidd Deall ac ymateb yn greadigol i ffyrdd gwahanol y mae Hindŵiaid yn dathlu Diwali Siarad am eu profiadau eu hunain o ddathliadau a gwyliau	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn.

Beth y mae Mwslimiaid yn ei gofio yn ystod Ramadan ac Eid ul-Fitr? Is-lensys: chwilio am ystyr a diben, hunaniaeth a pherthyn, awdurdod a dylanwad, taith bywyd			
Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Symbolau o hunaniaeth a pherthyn yn y bywyd Cristnogol, Mwslimaidd a Hindwaidd: enghreifftiau, defnydd, ystyron. Pa grefyddau/ argyhoeddiadau athronyddol? Mwslimiaid Syniadau/geirfa allweddol: Ramadan, ymptydio/sawm, mosg, Eid ul-Fitr, cardiau Eid, mosg, patrymau mehndi Symbolaeth, hunaniaeth, amrywiaeth, cydraddoldeb, parch. Sybsidiaredd: Gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn	Beth yr ydym yn ei wybod am symbolau a dathliadau Mwslimaidd? - Anogwch y dysgwyr i nodi enghreifftiau o fywyd a phrofiad yng Nghymru, megis - Trefnwch weithgaredd ysgrifennu sy'n galluogi'r dysgwyr i Pa ddigwyddiadau a ddechreuodd ddathliadau Ramadan ac Eid ul-Fitr? Myfyrio ar ddigwyddiadau yn eu bywydau eu hunain a'u cysylltu â gŵyl a dathlu yn Islam. - Pam nad yw pobl Fwslimaidd yn cael cinio am fis cyfan? Gan ddefnyddio lluniau, clipiau ffilm, arteffactau a llyfrau gwybodaeth, dylai'r plant weithio mewn grwpiau bach i ddarganfod arwyddocâd ymptydio yn ystod Ramadan i Fwslimiaid. Siaradwch am sut yr ydym yn teimlo pan fyddwn yn llwglyd. Mae llawer o Fwslimiaid yn dweud bod ymptydio yn eu helpu i fod yn amyneddgar, yn garedig, neu'n hael. - Gwylwch glip o Ramadan ac Eid ul-Fitr o safbwynt teulu. Gweler: https://www.bbc.co.uk/programmes/p02mwdxf - Ar ffurf dosbarth cyfan, trafodwch â'ch gilydd y modd y mae ymptydio yn ystod mis Ramadan yn rhoi ymdeimlad hyfryd o gymuned i Fwslimiaid, a bod ymptydio yn un o'r dyletswyddau y mae pobl Fwslimaidd yn eu dewis. A yw'r plant yn meddwl y byddai helpu'r rhai heb unrhyw fwyd yn gwneud i chi deimlo'n dda, hyd yn oed pe byddech yn llwglyd? - Addysgwch y dysgwyr fod ymptydio yn ystod Ramadan yn rhan bwysig o fod yn Fwslim, a'r enw ar hyn yw 'sawm'. Sicrhewch fod y dysgwyr yn gwybod rhai manylion am y modd y mae'r ymptyd yn cael ei gynnal, e.e. ei fod yn digwydd yn ystod oriau golau dydd ac y gall teuluoedd a ffrindiau ddod at ei gilydd gyda'r nos ar ddiwedd y dydd i fwyta pryd syml. - Gan ddefnyddio nodiadau gludiog, gofynnwch i'r dysgwyr gofnodi'r ffyrdd gwahanol y mae Eid ul-Fitr yn cael ei ddathlu (e.e. rhoi cardiau, dillad newydd, diwrnod i ffwrdd o'r ysgol, cinio arbennig, y teulu'n dod at ei gilydd, mynd i'r mosg, patrymau Mehndi). Siaradwch â'ch gilydd am ystyr symbolaidd y rhain. A allant sylwi ar bethau tebyg rhwng gwyliau eraill y maent wedi'u hastudio? - Gwnewch symbolau a delweddau – logos, os mynnwch – ar gyfer yr holl bethau gwahanol roedd y plant wedi'u darganfod sy'n digwydd yn ystod Eid. - Heriwch y dysgwyr i ddylunio gwahoddiad Eid ul-Fitr sy'n dangos rhai o agweddau Eid ul-Fitr a Ramadan. Anogwch y dysgwyr i gynnwys pethau megis rhoi i elusen, gweddio mewn mosg, cael dillad newydd, ymweld â chymdogion. Gwahaniaethau a Thebygrwydd - Rhowch dri chylchyn neu gylch sialc ar y llawr; gyda'r labeli Eid ul-Fitr, y Pasg a Diwali arnynt. Darllenwch ddatganiadau yn uchel a/neu dangoswch luniau o bethau sy'n digwydd neu sy'n cael	Disgrifio'r hyn yw ystyr Ramadan ac Eid ul-Fitr Egluro pwysigrwydd ymptydio yn ystod mis Ramadan Disgrifio rhai o'r ffyrdd y mae Eid ul-Fitr yn cael ei ddathlu Ymateb yn greadigol i ddysgu am Ramadan ac Eid ul-Fitr, gan feddwl am yr hyn y mae'r digwyddiadau pwysig hyn yn ei ddangos ynghylch credoau a gwerthoedd Mwslimaidd Archwilio'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng y dathliadau a astudiwyd yma.	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn.

addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydolwg arall at yr astudiaeth.

eu cofio yn ystod Eid ul-Fitr, y Pasg a Diwali. Caiff y dysgwyr benderfynu pa gylchyn y maent am sefyll ynddo. Dylai rhai datganiadau/lluniau olygu y gallent sefyll yn unrhyw un o'r cylchoedd. Ar ôl hyn, gwnewch restr neu lun dosbarth yn dangos y gwahaniaethau neu'r tebygrwydd rhwng y gwyliau.

© 2022 RE Today a CYSAG Abertawe



Cofio Diwali

Jemma

14 oed

O batrymau rangoli ac adrodd storïau i'r posibilrwydd o ddathliad llawen neu fywyd gwahanol eleni, mae Diwali yn dathlu golau a'r ffyrdd y mae'n trechu'r tywyllwch.



Diwrnod i'w Gofio: Eid ul-Fitr

Usman

8 oed

Mae pawb yn gwenu, ac mae yna anrhegion i'r plant. Rydym yn bwyta ac yn yfed am fod Ramadan wedi dod i ben.



Cofiwch y Pasg!

Alicia

8 oed

Dyma fy nathliad ar gyfer y Pasg. Mae'r groes yn ein hatgoffa pryd y bu Iesu farw ar y groes. Mae'r papur sidan yn cael ei ddewis yn holl liwiau'r enfys. Mae'r pysgod, y groes a'r cwpan yn symbolau i'n hatgoffa o stori'r Pasg.